Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Y Mesur Cludiant i'r Ysgol Drafft

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Cludiant i'r Ysgol drafft ar 28 Ebrill 2004. Bu Aelodau hefyd yn ystyried y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gyda'r Mesur drafft. Cafodd y Mesur drafft ei gyflwyno gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd swyddogion Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad a'r Adran Drafnidiaeth yn bresennol hefyd.

Yn ei chyflwyniad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Mesur drafft wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r anawsterau'n gysylltiedig â phellteroedd cerdded statudol a byddai'n galluogi awdurdodau addysg lleol (AALlau) i arbrofi gydag atebion lleol ar gyfer problemau lleol;
- Byddai pob cynllun yn destun ymgynghoriad lleol helaeth;
- Byddai'r Mesur yn galluogi AALlau i godi ffioedd bach;
- Byddai'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i AALlau wneud cais am gynlluniau peilot o 2006;
- Yn Lloegr, byddai'r rhestr Cinio Ysgol am Ddim yn cael ei defnyddio fel dangosydd ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel, ond ni fydd hyn yn digwydd yng Nghymru; a
- Gobeithwyd y byddai'r AALlau yn defnyddio'u dychymyg wrth lunio'r cynlluniau peilot arfaethedig.

Gwnaeth Aelodau'r awgrymiadau a'r sylwadau canlynol:

- **Amcanion y Cynllun:** Ar y cyfan, roedd Aelodau'n weddol hapus ag amcanion y cynlluniau teithio i'r ysgol, yn amodol ar y sylwadau isod;
- **Ffioedd Amrywiadwy**: byddai'r cynlluniau peilot yn rhoi cyfle i greu gwahanol barthau er mwyn codi ffioedd amrywiol ar y disgyblion, yn dibynnu ar hyd eu siwrnai: system debyg i'r hyn a welir ar y trenau tanddaearol yn Llundain. Teimlwyd y byddai hyn yn denu mwy o ddisgyblion ar y bysiau;
- **Anfanteision:** pe codir tâl am gludiant i'r ysgol am siwrne a fu unwaith yn ddi- dâl, yna efallai byddai mwy o rieni yn penderfynu cludo'u plant i'r ysgol mewn ceir;
- **Ardaloedd Gwledig ac Anghysbell:** dylai cynlluniau teithio roi ystyriaeth i'r nifer fawr o ddisgyblion sy'n teithio pellteroedd hir o ardaloedd gwledig ac anghysbell;
- **Costau**: roedd yr angen i gynlluniau teithio peilot fod yn niwtral o ran cost yn rhy feichus a byddai'n rhwystro yn hytrach na meithrin arloesedd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu arian, er mwyn talu am y costau gweinyddu ychwanegol o ganlyniad i'r cynlluniau peilot yng Nghymru;
- **Diogelwch:** dylai'r Mesur fynd i'r afael â materion diogelwch sylfaenol, megis y math o fysiau a ddefnyddir ar gyfer cludo plant i'r ysgol a'u cyflwr, a hefyd y

trefniant o eistedd tri mewn sedd i ddau, oherwydd ystyriwyd bod hyn yn gamamseriad;
- **Prawf Modd:** dylid osgoi hyn os oes modd;
- **Mesur Buddiannau:** wrth asesu'r ceisiadau a ddaeth oddi wrth yr Awdurdodau Addysg Lleol, dylid rhoi ystyriaeth i'r dulliau o fesur buddiannau'r cynllun: er enghraifft, o ran lleihau nifer y ceir sy'n gollwng a chasglu plant ar ddechrau a diwedd diwrnod ysgol;
- **Gweithgareddau y 'Tu Allan i Oriau Ysgol':** dylai cynlluniau teithio roi ystyriaeth i anghenion y plant sy'n mynychu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol arferol;
- **Canllawiau:** Roedd Aelodau'n credu y byddai'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cael canllawiau clir i'w helpu i baratoi eu ceisiadau;
- **Cyfnod Ymgynghori;** Teimlwyd bod angen ymestyn y cyfnod ymgynghori, am fod yr etholiadau i'r awdurdodau lleol ar y gorwel.

Nododd y Gweinidog sylwadau'r Aelodau a chytunodd i roi gwybod i'r Pwyllgor os oedd modd ymestyn y cyfnod ymgynghori.

Roedd Aelodau'n croesawu'r cyfle i drafod y Mesur ac yn gobeithio y byddai'u sylwadau'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddrafftio'r Mesur terfynol. Bydd y Pwyllgor yn neilltuo amser yn ei flaenraglen waith i graffu ar y Mesur terfynol.

Cytunodd y Cadeirydd i anfon copi o'r adroddiad hwn at y Gweinidog, ac hefyd at Gadeirydd Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y Cynulliad, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, Cadeirydd Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Addysg a Sgiliau, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor